# YSGOL PEN BARRAS

**POLISI DISGYBLU DISGYBLION**

'Mae effeithiolrwydd ysgol i ddatblygu ymddygiad da a hunan-ddisgyblaeth yn dylanwadu ar droseddwyr ifanc. Rhydd y cyhoedd linyn mesur ar rediad yr ysgol drwy edrych ar safonau ymddygiad y disgyblion'. (GWELLA YSGOLION H.M.S.O.).

**NOD**

Creu awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol – gan greu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth.

Gweithredu disgyblaeth gyson yn yr ysgol.

**AMCANION**

1. Gosod sylfaen a fydd yn caniatau i'r plant i dyfu i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymdeithas.
2. Meithrin hunan barch, parch tuag at eu cyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.
3. Bod yn oddefgar o safbwynt a barn pobl eraill.
4. Derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a bod yn hunan feirniadol.
5. Gwerthfawrogi bodolaeth gwahanol bobloedd, traddodiadau, diwylliannau a chrefyddau ayyb.

**CANLLAWIAU CYFFREDINOL**

Er mwyn sicrhau awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol bydd rhaid i bob aelod o'r staff (yn athrawon a staff cynorthwyol) ymdrechu'n deg a chyson i gynnal safonau uchel ac i sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r safonau hynny.

**TREFN DISGYBLU**

1. Cerydd geiriol gan yr athro/athrawes.
2. Cerydd geiriol gan y Pennaeth mewn achosion o ail adrodd y drosedd neu mewn achosion o gamymddwyn difrifol.
3. Gwahodd y rhieni i drafod y sefyllfa – cedwir cofnod o'r cyfarfod.
4. Trafod gyda'r Llywodraethwyr pan fydd angen cymryd mesurau statudol pellach e.e. gwahardd y plentyn.

**CASGLIAD**

Ceisia'r polisi hwn greu ethos garedig, ystyriol a diormes o fewn yr ysgol. Mae disgyblaeth gadarn yn hanfodol i gyrraedd y nod yma. Bwriad y polisi hwn yw ceisio creu ymdeimlad o ofal a gwarchodaeth o fewn yr ysgol.

O gael eu harfer yn deg ond eto'n gadarn, dylai'r canllawiau hyn sicrhau tegwch i bawb.

Ymdrechir i drin pob plentyn yn deg ond, er mwyn sicrhau tegwch, gall natur y gosb, am yr un gamwedd, amrywio o blentyn i blentyn. Bydd hyn yn dibynnu ar oedran, amgylchiadau, aeddfedrwydd ac ymateb cyffredinol y plentyn i dderbyn cosb.

## ARWEINIAD GWRTH FWLIO

Fel rhan o raglen datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion y mae ymdrin â'r mater hwn yn annatod. Y mae'r modd y mae'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd yn fater y dylid ei ystyried o ddiwrnod cyntaf eu gyrfa yn yr ysgol gynradd. Gosodir y sylfaeni yn rhaglen datblygiad cymdeithasol y plentyn yn y Blynyddoedd Cynnar, a datblygir yr agwedd hon ar bob cyfle posibl drwy'r ysgol. Y mae codi ymwybyddiaeth plentyn o beryglon bwlio yn rhywbeth a gyfyd mewn sesiynau lles, yn drawsgwricwlaidd yng ngweithgareddau'r dosbarth ac hefyd mewn gwasanaethau uned a gwasanaethau ysgol gyfan.

Manteisir ar bob cyfle i ddiffinio'r hyn a olygwn wrth fwlio, gan roddi digon o gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i chwarae rôl ac i sylweddoli beth yw'r canlyniadau posibl.

Y mae'n bwysig addysgu'r plant am y gwahanol fathau o fwlio:
(a) Bwlio corfforol.
(b) Bwlio emosiynol – bygwth, codi ofn, galw enwau, bychanu, difrio, anwybyddu, gorfodi i roi etc.

**ARWYDDION O FWLIO**

1. Plentyn yn troi'n fewnblyg.
2. Plentyn yn newid cymeriad.
3. Olion camdrin corfforol.
4. Amharodwydd i ddod i'r ysgol.
5. Amharodrwydd i fynd allan i chwarae.
6. Safon gwaith yn dirywio.

**SICRWYDD I'R UN SY'N CAEL EI F/BWLIO**

1. Pardorwydd aelod o'r staff i wrando ar gwyn.
2. Sicrwydd o gyfrinachedd: e.e. gweld athro amser chwarae, gofyn i riant ffonio'r ysgol, pasio nodyn ysgrifenedig i aelod o'r staff etc.
3. Gweithredu mewn cydweithrediad a'r plentyn.
4. Monitro'r canlyniadau dros gyfnod o amser.
5. Caniatau i eraill ddod â'r mater gerbron aelod o'r staff.

**YMDRIN Â'R UN SY'N BWLIO**

1. Rhoi cyfle teg iddo/iddi i ddweud ei ran/rhan.
2. Egluro'r canlyniadau posibl a'r gosb.
3. Rhoi cosb iddo/iddi yn ôl canllawiau'r ysgol.
4. Pwysleisio mai <u>un cynnig</u> yn unig sydd iddo/iddi cyn gosod peirianwaith ymateb i fwlio i weithio.

**DELIO Â'R BWLI**

1. Mynd â'r mater (gyda thystiolaeth/tystion) at y Pennaeth.
2. Cysylltu a rhieni'r plant – y bwli a'r un sy'n cael ei fwlio.
3. Cofnodi'r digwyddiadau'n ysgrifenedig. (yr athro/athrawes i gadw'r nodiadau yn ffeil y disgybl).
4. Cyfweld â'r rhieni ar wahân.

**OS PERY'R BWLIO. YNA YSTYRIR GWEITHREDU CANLLAWIAU DIARDDEL DISGYBL.**